

Asesiad HMI Wendy Williams o Heddlu Gwent – Trawsgrifiad

Helo. Wendy Williams ydw i, a fi yw Arolygydd Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Heddlu Gwent. Dwi'n un o bum arolygydd, a'n rôl i yw arolygu heddluoedd ar ran y cyhoedd. Pob blwyddyn byddwn yn cynhyrchu asesiad blynyddol o sut mae pob heddlu'n perfformio.

Hoffwn ganmol Heddlu Gwent am y cynnydd arbennig a wnaeth yn 2015. Mae'r heddlu wedi ymateb yn bositif i gasgliadau asesiad PEEL y llynedd ac rwy'n hapus iawn gyda'i berfformiad o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu.

Mae cyflwyno model gweithredu newydd wedi rhyddhau mwy o swyddogion i rolau plismona rheng flaen, tra'n galluogi'r heddlu i wneud arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae Heddlu Gwent wedi datblygu a chyflwyno rhaglen helaeth o newid, gyda chefnogaeth cynllun ariannol effeithiol. O fewn cyfnod cyfyng o amser, mae arweinyddiaeth gadarn a chlir yn yr heddlu ynghyd â gweithlu sydd wedi ymgysylltu'n llawn wedi cyflawni gwelliannau gweladwy yn effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb y gwasanaeth mae'r heddlu nawr yn ei ddarparu i'r cyhoedd.

Mae'r heddlu'n dda o ran nodi dioddefwyr mynych a bregus, asesu risg a chefnogi dioddefwyr.

Wrth ddelio â'r cyhoedd, mae staff yn ceisio deall a delio gydag anghenion unigolion er mwyn diogelu pobl fregus rhag niwed.

Rydw i wedi fy mhlesio gyda'r modd mae'r heddlu'n ymgysylltu gyda thrigolion Gwent, yn defnyddio ystod eang o ddulliau.

Mae wedi cyflwyno system rheoli cymdogaeth sy'n ei helpu i ddeall anghenion cymunedau yn yr ardal.

Yn y flwyddyn i ddod, byddaf yn awyddus i weld sut mae'r heddlu'n asesu'r model gweithredu newydd o ran bodloni anghenion y cyhoedd.

Bydd gennyf ddiddordeb arbennig mewn monitro gwelliant parhaus canolfan plant coll amlasiantaethol Gwent.